

Ymyrraeth	Cymunedau Cryf a Gwydn		Gwyrdd	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd	
			Oren	Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyraeddadwy o hyd	
Arwain	Nicola Prygodzicz / CS Tom Harding	Cyfnod Adrodd	Chwarter 4 2021-22	Coch	Cynnydd ymhell o fwrw'r targed
Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau					
<p>Rhwydweithiau Lles Integredig - Mae Cydweithrediad Pilgwenlli wedi dod â phobl ynghyd drwy amrywiaeth o raglenni lles gan gynnwys creu rhandir, digwyddiad iechyd a lles, teithiau tywys i aelodau'r gymuned sy'n 50 oed a hŷn, gwefan Pill Connects a sgysiau cymunedol i bennu blaenoriaethau lles yr ardal.</p> <p>Mae Cydweithrediad Ringland hefyd wedi cryfhau a hyrwyddo digwyddiadau amrywiol gan gynnwys rhaglen hanner tymor o ddigwyddiadau yn yr Hyb Cymunedol, gerddi cymunedol yn Sterndale Bennet a Cecil Sharp Road, gweithgareddau lles mewn coetiroedd drwy Goed Lleol a grŵp sgysiau cymunedol.</p> <p>Cwblhawyd yr ail raglen gyllidebu fawr i gefnogi prosiectau cymunedol ar gyfer adfer o Covid gyda chyllid o £415k a ddyrannwyd gan ddinasyddion i 80 o brosiectau drwy 6 digwyddiad pleidleisio sy'n cynnwys 450 o gyfranogwyr cyhoeddus.</p> <p>Dechreuodd proses Uwchgynllun Pilgwenlli ym mis Tachwedd 2021. Mae CDC, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a'r Heddlu wedi comisiynu Mela Cymru a'r Urbanists i arwain sgysiau cymunedol i feddwl am syniadau ar y cyd ar gyfer gwella iechyd a lles gan ganolbwyntio ar fusnes, manau gwyrdd ac ymgysylltu â'r gymuned. Mae Fforwm Busnes bellach yn cyfarfod yn fisol.</p> <p>Mae cynllun peilot Rhaglen Drawsnewid Integreiddio'r Blynnyddoedd Cynnar ym Metws yn parhau i ddatblygu rhaglen waith gydweithredol gyda theuluoedd â phlant y blynnyddoedd cynnar, gan uno'r ymweliadau â chartrefi gan wasanaethau lechyd ac Awdurdodau Lleol. Pan gaiff ei ddatblygu'n llawn, bydd hyn yn arwain at lai o weithwyr proffesiynol yn ymweld â theuluoedd a gweithiwr allweddol yn cydlynu gwasanaethau, a bydd modd i aml-asiantaethau'n edrych ar gofnodion o'r ymweliadau hyn.</p>					
Mesuriadau Perfformiad Allweddol		Targed	Gwirioneddol	COG	
Mae cynllun cyflawni wrthi'n cael ei ddatblygu a chaiff mesurau eu cymeradwyo drwy'r broses hon.					
Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol					
Uwchgynllun Pilgwenlli – dechrau gwaith ymgysylltu â'r gymuned i wella iechyd a lles, manau gwyrdd a chymorth busnes a buddsoddi.					
Dechrau gweithio gydag iechyd i gwmpasu a chynllunio rhaglen cyllidebu cyfranogol 2022/23.					
Gweithio gyda Chomisiwn Tegwch Casnewydd i adolygu proses a chanlyniadau'r rhaglen cyllidebu cyfranogol.					
Lansiwch borth gwe Eich Lles Eich Casnewydd i hyrwyddo gweithgareddau, rhaglenni a chyfleoedd ledled Casnewydd.					
Cwblhau'r gwerthusiad o Adroddiad Braenaru'r Blynnyddoedd Cynnar ym Metws. Cynnal 'Parti Bwmp' ar gyfer darpar rieni yn ardal Hyb y Gogledd dan arweiniad y Fydwaig Braenaru a benodwyd yn ddiweddar i hyrwyddo'r gwasanaethau a'r cymorth sydd ar gael ar gyfer y blynnyddoedd cynnar.					
Prif Risgiau / Rhwystrau i gynnydd		Statws (U/C/I)	Camau Lliniaru / Y Cymorth Sydd ei Angen		
Mae allgáu digidol yn rhwystro'r cymunedau yr effeithir arnynt waethaf rhag cymryd rhan mewn rhaglenni ymgysylltu ar-lein e.e. cyllidebu cyfranogol ar gyfer adfer o Covid.		Isel	Trefnu sesiynau pleidleisio wyneb yn wyneb ar gyfer pobl sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol.		